| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR ARCHWILIO** |
| **DYDDIAD:** | **26 MAI 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYFRIFON 2010-11 DIWEDDARIAD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **RHOI DIWEDDARIAD I'R PWYLLGOR AR Y TREFNIADAU AR GYFER PARATOI'R CYFRIFON** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** |

## 1. CEFNDIR

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae'r gwaith o baratoi'r cyfrifon statudol wedi mynd yn gynyddol heriol oherwydd bod y broses yn mynd yn fwy cymhleth a'r dyddiadau cau yn dynnach. Caiff y broses ei llesteirio hefyd gan hen systemau ariannol sydd bron â chyrraedd diwedd eu hoes.

Yn 2010, o ganlyniad i newidiadau staffio a phroblemau o ran cael staff wrth gefn priodol, cafwyd anawsterau sylweddol i gau ac archwilio'r cyfrifon.

Mae'r Aelodau wedi gofyn am adroddiadau ar gynnydd. Mae adroddiad ar wahân gan PriceWaterhouseCoopers ar y rhaglen hon hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella'r sefyllfa.

## 2. SIALENSIAU

Mae cyfrifon 2010/11 yn heriol i'r holl awdurdodau lleol oherwydd mae angen cydymffurfio am y tro cyntaf eleni gyda'r IFRS. Roedd hyn yn golygu newidiadau sylweddol mewn nifer o feysydd, ac yn arbennig felly ym maes cyfrifo cyfalaf. Oherwydd y newidiadau, bydd angen ailddatgan y cyfrifon.

Yn achos Ynys Môn, hon yw'r flwyddyn hefyd i ailbrisio'r asedau sefydlog. Gwneir hyn bob pum mlynedd ac mae'n ychwanegu at faich gwaith y cyfrifydd cyfalaf.

Ychwanegir at yr heriau i'r awdurdod hwn oherwydd yr oedi gyda chwblhau cyfrifon 2009/10 a'r effaith ddilynol ar brosesau corfforaethol eraill ynghyd â materion yn ymwneud ag adnoddau. Yn ychwanegol at hyn, cafwyd y mentrau a oedd yn gysylltiedig gyda'r adferiad a oedd yn draul ar adnoddau rheoli a phroffesiynol.

Yn ychwanegol at hyn, mae nifer o'r staff yn yr adain gyfrifol yn newydd i'w swyddi cyfredol.

## 3. ADNODDAU

Yn ystod 2010, oherwydd bod staff yn gadael, cynhaliwyd ymarfer recriwtio gennym gan ddyrchafu nifer o staff yn fewnol a hysbysebu tair swydd cyfrifydd yn allanol. Penodwyd i un o'r swyddi ond doedd dim modd i ni ddenu cyfrifwyr a chanddynt ddigon o brofiad o gyfrifon llywodraeth leol.

Ers Tachwedd, mae dau swyddog dros dro cymwys a phrofiadol wedi bod yn cyflawni dwy swydd allweddol – Rheolydd Cyfrifeg / Swyddog sy'n Arwain ar Gau Cyfrifon a Phrif Gyfrifydd (Cyfalaf). Cawsom Reolydd Cyfrifeg Dros Dro newydd o'r Asiantaeth ddechrau mis Mai. Mae'n ymuno gyda ni o swydd debyg mewn Awdurdod Unedol yn Lloegr ac mae ei sgiliau'n ymwneud yn benodol â Chau Cyfrifon.

Yn ogystal, mae swydd newydd wedi cael ei chreu ar gyfer Cyfrifydd Prosiectau. Mae'r swyddog wedi bod yn y swydd ers mis Chwefror. Mae'r swydd hon yn cefnogi prosiectau datblygu - gan gynnwys systemau ariannol newydd; prosiectau cydweithredu a nifer o brosiectau Rhaglen Blaenoriaethau Fforddiadwy. Mae hyn wedi rhyddhau adnoddau yn y tîm Cyfrifeg.

## 4. SYSTEMAU

<u>System Cyfrifo Asedau Sefydlog</u>
Yn ystod y flwyddyn, adolygwyd yr opsiynau o ran parhau i ddefnyddio taenlenni neu weithredu system newydd. Mewn ymgynghoriad gyda'r Cyfrifydd Cyfalaf Dros Dro, penderfynwyd defnyddio'r taenlenni a sicrhau bod y camgymeriadau a wnaed o'r blaen yn cael eu cywiro.

<u>Y brif system ariannol a'r papurau gwaith cysylltiedig</u>
Ni fu modd uwchraddio'r prif systemau ac ni fu'n ymarferol cwrdd â chais yr Archwilwyr Allanol bod newidiadau'n cael eu rhoi trwy'r lejer. Fodd bynnag, mae taenlenni newydd wedi cael eu dylunio neu fe gafwyd rhai gan awdurdodau eraill a dylai hyn wneud y trafodion yn haws i'w dilyn.

## 5. CYNNYDD A RISGIAU

Ers mis Tachwedd, mae'r Cyfrifydd Cyfalaf Dros Dro wedi bod yn gweithio'n benodol ar yr Ailbrisiad o Asedau a'r Cyfrifon gan gynnwys IFRS.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed cryn gynnydd ar yr argymhellion archwilio blaenorol gan gynnwys adolygiad o'r fantolen ac adolygu'r ddarpariaeth o safbwynt dyledion drwg.

Mae cynnydd mewn perthynas â'r amserlen "arferol" ychydig ddyddiau ar ei hôl hi ac rydym wrthi'n ceisio dod o hyd i adnoddau i gywiro hyn. Mae adnoddau'n cael eu dwyn i mewn o dimau Cyllid eraill ond efallai y bydd rhaid prynu i mewn gymorth technegol er mwyn cefnogi'r Rheolydd Cyfrifeg Dros Dro. Rydym yn parhau i anelu at y dyddiad cau o ddiwedd mis Mehefin ond mae risgiau sylweddol ynghlwm wrth beidio llwyddo i wneud hynny.

Ond, mae'r Rheolydd Cyfrifeg Dros Dro yn dadansoddi effaith y newid o'r hen SORP i IFRS ac yn adolygu'r cynnydd a'r cyflawnrwydd o'r newidiadau'n ymwneud â'r IFRS. Dyma'r maes sy'n achosi'r risgiau mwyaf i gwblhau'r cyfrifon ar amser. Maent yn cynnwys: -

- asesiad o natur bob les a’r angen i’w cynnwys ar y fantolen;

- sail cronni cyflogau dros y tair blynedd berthnasol (2009; 2010; 2011) - yn bennaf ynglŷn â thâl gwyliau wedi ei cronni;

- adnabod grantiau cyfalaf trwy’r cyfrif incwm a gwariant am y tro cyntaf;

- pwyntiau penderfyniad cymhleth ynglŷn â’r driniaeth o ychwanegiadau asedau sefydlog neu REFCUS;

- cymryd grantiau refeniw trwy’r cyfrif incwm a gwariant ond os oes cydymffurfiaeth ag amodau’r grant.

Yn ogystal, mae rhai o’r pecynnau cymorth sy’n cael eu defnyddio i ddod â gwybodaeth o’r lejer i’r fformat sy’n angenrheidiol ar gyfer y cyfrifon yn cael eu defnyddio am y tro cyntaf. Dyma achosodd yr oedi mwyaf llynedd.

Mae ffurf y datganiadau yn newid a bydd angen cynhyrchu’r cyfrif incwm a gwariant mewn tair ffurf wahanol dros ddwy flynedd. Yn yr un modd, bydd angen cynhyrchu mantolen ar gyfer y tair blynedd diwethaf a’u cymharu â’r fersiwn SORP ac egluro unrhyw newidiadau o sylwedd.

Ac fel arfer, oherwydd adnoddau cyfyngedig, mae absenoldeb staff neu golli staff yn parhau i beri risg.

## 6. PWYLLGOR ARCHWILIO

Fel y dywedwyd eisoes, rydym yn bwriadu dod â’r cyfrifon drafft i’r Pwyllgor Archwilio ym mis Gorffennaf. Yn y cyfarfod hwnnw, gofynnir i’r Pwyllgor gymeradwyo polisïau cyfrifo’r Awdurdod. Mae hon yn dasg benodol eleni oherwydd y newidiadau sy’n ofynnol yn sgil gweithredu IFRS.

## 7. CYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL

Yn gyson ag argymhellion yr Archwilydd Allanol, gwnaed gwaith yn ystod y flwyddyn i symud ymlaen gyda:-

- adnewyddu’r prif systemau ariannol;
- gweithredu system gyfrifo ar gyfer asedau sefydlog;
- ymchwilio i’r hyn sy’n ein rhwystro rhag llenwi uwch swyddi sy’n “anodd eu llenwi” a cheisio goresgyn y rhwystrau hynny;
- adolygu’r adnoddau staffio a’r strwythur ar gyfer cau cyfrifon er mwyn sicrhau cadernid.

Mae llawer o’r gwaith hwn wedi cael ei ohirio ers rhai misoedd er mwyn cael cymeradwyo ffordd ymarferol o symud ymlaen.

**EINIR WYN THOMAS**
**PENNAETH GWASANAETH (CYLLID)** **23 MAI 2011**

***GEIRFA***
*REFCUS : Gwariant Refeniw a Gyllidir o Gyfalaf yn unol â Statud*
*IFRS : Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol*
*SORP : Datganiad o Ymarfer Cymeradwy : Côd Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Gyfunol (yr arweiniad perthnasol i’r cyfrifon hyd at 2009-10)*